Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Y Garnedd a Chlwb Ffrindiau Y Garnedd

Ysgol Y Garnedd
Ffordd Penrhos
Bangor
Gwynedd
LL57 2LX

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Y Garnedd a Chlwb Ffrindiau Y Garnedd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin y Garnedd a Chlwb Ffrindiau y Garnedd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Meithrinfa Ffalabalam Cyf. |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Menna Jones |
| Person â gofal | Helen Hayes |
| Nifer y lleoedd | 24 yn y bore, 18 yn y prynhawn |
| Ystod oedran y plant | 2 - 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 18 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 13 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 7.45y.b – 5.45y.p Dydd Llun – Dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad 1af ers cofrestru ar 1/7/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 4/7/2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 10/2/2026 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gan ddigon o ymarferwyr hyfforddiant llawn cymorth cyntaf pediatreg priodol er mwyn cyrraedd y gofynion.

A2 Miniogi dulliau pwrpasol o gofnodi arsylwadau, a'u defnyddio'n fwy effeithiol i gynllunio camau nesaf yn y dysgu.

A3 Adolygu polisïau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gweithdrefnau cyfredol.

A4 Datblygu dulliau cyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr er mwyn rhannu gwybodaeth gyfredol am gynnydd plentyn.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae’r plant yn dysgu gwneud penderfyniadau ynglŷn â’u chwarae ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn symud rhwng ardaloedd dan do a thu allan, gan ddewis yr adnoddau maent eisiau eu defnyddio i chwarae â nhw. Mae llawer o blant yn dangos brwdfrydedd tuag at eu gweithgareddau, gan ganu’n hapus wrth gerdded i’r ysgol goedwig neu wrth ddechrau gweithgaredd newydd.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymgartrefu’n dda ac yn gyfarwydd â’r drefn ddyddiol, gan godi llaw neu gyfarch ymarferwyr wrth gyrraedd. Os oes unrhyw un ohonynt yn drist wrth wahanu â rhieni, maent yn setlo’n sydyn gan fod ymarferwyr yn ymateb yn effeithiol trwy gynnig cysur a’u cefnogi â’r teimladau hyn. Mae plant yn meithrin perthnasoedd agos ag ymarferwyr ac yn gyfforddus yn eu cwmni. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dilyn yr hyn sy’n ddisgwyliedig ohonynt yn ystod amseroedd tacluso neu amser trafod ar y mat. Os oes unrhyw un yn dewis peidio ag ymuno, mae’r dewis hwn yn cael ei barchu a’r plant yn cael ymuno yn eu hamser eu hunain.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio’n gadarnhaol â’i gilydd a’r staff. Maent yn sgwrsio’n naturiol, yn gyfforddus i ofyn am help ac yn dechrau rhannu syniadau drwy chwarae. Er enghraifft, maent yn chwarae rôl gwerthu lolis rhew ac yn derbyn cynigion ymarferwyr i ofyn i ffrindiau am arian dychmygol amdanynt. Mae llawer yn dechrau gwneud ffrindiau neu wahodd eraill i chwarae, ac yn dangos caredigrwydd, er enghraifft drwy gadw sedd ar y mat i gyfaill neu gynnig rhannu snac.

Mae’r mwyafrif o blant yn dangos mwynhad drwy chwerthin a gwenu’n gyffrous wrth chwarae. Mae llawer yn ymateb yn bositif i her, gan geisio gweithgareddau newydd neu ddyfalbarhau mewn un ardal cyn symud ymlaen. Maent yn mwynhau cydbwysedd da o chwarae rhydd a gweithgareddau wedi’u harwain gan ymarferwyr. Mae’r mwyafrif o blant yn canolbwyntio am gyfnod addas i’w hoedrannau a’u cam datblygiad.

Mae’r mwyafrif o blant yn datblygu medrau annibyniaeth da ac yn cymryd rhan mewn tasgau bob dydd gyda hyder cynyddol. Er enghraifft, maent yn penderfynu mynd i’r toiled neu olchi dwylo ar eu pen eu hunain, ac yn gosod cotiau a bagiau ar y pegiau. Maent yn hapus i ofyn am gymorth, pan fo angen, er enghraifft wrth wisgo cot law i fynychu’r ysgol goedwig. Mae gan blant ryddid i ddewis pryd i gael snac drwy helpu eu hunain i blatiau, gwydrau a dewis o dost neu ffrwyth. Maent yn ymateb yn gynyddol aeddfed i gyfleoedd pellach i ddatblygu hyder, annibyniaeth a medrau bywyd, fel tynnu croen ffrwyth neu dorri eu snac eu hunain yn ofalus.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae bron pob un o’r plant, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu ystod bwrpasol o fedrau yn effeithiol wrth chwarae a dysgu, yn enwedig eu medrau annibynnol, sy’n datblygu’n gadarn.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwrando’n ofalus ar ymarferwyr a phlant eraill ac yn ymateb yn briodol wrth siarad ag ymwelwyr. Mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cyson dda wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae’r rhan fwyaf yn siarad mewn brawddegau llawn drwy gyfrwng y Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau perthnasol. Er enghraifft, maent yn trafod sut maent am greu cwch yn yr ardal gwaith coed ac yn ymateb i gwestiynau am ba ffrwyth maent am ei ddewis adeg snac.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn edrych ar lyfrau gydag ymarferwyr ac yn ymateb yn briodol i’r stori. Maent yn pwyntio at y lluniau ac yn siarad â diddordeb am y cynnwys. Mae bron pob un o’r plant yn defnyddio amrywiaeth o offer marcio yn effeithiol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau rhifedd cadarn ac yn defnyddio iaith fathemategol gywir wrth rifo sawl darn o afal maent yn gosod ar y wifren i greu bwyd i’r adar. Maent yn cymhwyso gwybodaeth fathemategol yn fuddiol wrth chwarae yn yr ardaloedd trwy drafod pwysau’r tatws ar y glorian.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n briodol ac maent yn deall bod offer digidol yn cael effaith ar eu bywydau bob dydd. Mae bron pob un o’r plant yn arddangos medrau datrys problemau cryf. Er enghraifft, maent yn ystyried sut i lywio’r ferfa o amgylch y gwreiddiau yn yr ysgol goedwig. Mae bron pob un yn dyfalbarhau â’r dasg hyd nes iddynt ei chwblhau yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol cadarn. Maent yn egnïol yn gorfforol ac yn dangos rheolaeth gynyddol yn eu chwarae. Mae medrau modur mân bron pob un o’r plant yn datblygu’n dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio casglwr sbwriel i godi dail a’u gosod yn y ferfa. Mae lleiafrif o plant yn arddangos medrau creadigol boddhaol. Maent yn dangos mwynhad wrth ganu amrywiaeth o ganeuon ac yn gwneud dewisiadau effeithiol am beth i’w ddefnyddio i addurno eu gwaith, er enghraifft wrth ddewis darnau bach i greu wynebau trist a hapus.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gweithredu’r rhan fwyaf o bolisïau yn gyson. Er enghraifft, maent yn dilyn polisi meddyginiaeth yn effeithiol, yn cofnodi damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau

presennol yn briodol, ac yn diwallu anghenion plant ag alergedd. Mae'r rhan fwyaf wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf. Fodd bynnag, nid oes digon ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatreg llawn yn unol â'r gofynion. Mae ymarferwyr yn hyderus ac wedi hyfforddi mewn gweithdrefnau diogelu plant ac wedi gweithredu'n briodol pan mae materion wedi codi. Mae cofrestrau'n dangos eu bod yn cyrraedd cymarebau ymarferwyr i blant, ac mae arweinwyr yn cyfathrebu'n glir ac yn gyson i sicrhau eu bod wedi lleoli'n effeithiol i oruchwylio plant. Mae gweithdrefnau hylendid yn gadarn, gan gynnwys ymarferion glanhau a newid plant. Mae ymarferwyr hefyd yn sicrhau bod gan blant ddigon o amser yn yr awyr agored, bod snac iach ar gael, ac anogaeth i blant ddilyn arferion hylendid personol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder

Mae ymarferwyr yn dangos caredigrwydd a pharch tuag at y plant, ac yn gosod esiampl gadarnhaol drwy eu hagweddau a'u ymddygiad. Maent yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth yn gyson i hybu hyder y plant. Pan mae angen, maent yn darparu amser tawel neu gyfle i siarad am emosiynau gan ddefnyddio adnoddau neu lyfrau i gefnogi dealltwriaeth plant. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd i gefnogi dealltwriaeth plant fod canlyniadau i'w dewisiadau, a bod angen iddynt ystyried hyn. Er enghraifft, maent yn gofyn i blant dacluso adnoddau ar ôl gorffen gweithgaredd, fel bod y teganau ar gael i blant eraill chwarae â nhw.  Mae'r sgyrsiau'n gynnes ac yn bositif ac mae perthnasoedd cryf rhwng plant ac ymarferwyr.

Mae ymarferwyr yn defnyddio eu dealltwriaeth o ddiddordebau'r plant i greu profiadau sy'n gefnogol ac  ystyrlon. Maent yn dangos brwdfrydedd gwirioneddol tuag at y plant, gan sgwrsio'n naturiol am eu teuluoedd a'u diddordebau. Mae enghreifftiau o gynnydd cymdeithasol y plant yn amlwg, yn enwedig wrth iddynt ddechrau chwarae a rhannu gyda'u ffrindiau. Mae systemau ar waith i nodi targedau bach dyddiol, ac mae ymarferwyr yn ymwybodol o'r rhain wrth ymgysylltu â'r plant. Mae ymarferwyr yn deall sut i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol a sut i gydweithio'n effeithiol â rhieni ac asiantaethau allanol fel therapyddion iaith a lleferydd, pan mae angen.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu effeithiol sy'n annog plant i ddatblygu'n archwilwyr hyderus yn eu hamgylchedd, er enghraifft trwy ddefnyddio ysbienddrych i chwilio am adar yn y goedwig. Mae'r profiadau hyn yn cryfhau dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas a phwysigrwydd trin popeth byw â gofal a pharch.

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd hamddenol a chreadigol iawn sydd yn cynnig ystod o brofiadau arbennig i'r plant yn yr ardaloedd tu fewn a thu allan. Maent yn ennyn diddordeb y plant ac yn denu eu sylw at ryfeddod y byd o'u cwmpas yn llwyddiannus. Mae

ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant ac maent yn eu hadnabod yn arbennig o dda. Maent yn hybu medrau annibynnol y plant yn dda iawn. O ganlyniad, mae'r plant yn hyderus i nôl offer a gwneud eu dewisiadau eu hunain wrth chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith yn raenus a chyson ac yn canu rhigymau a hwiangerddi cyfarwydd. Mae'r mewnbwn rheolaidd hwn yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau Cymraeg yn gynyddol. Mae ymarferwyr yn holi'n fedrus ac yn bwydo iaith o safon uchel wrth drafod gyda'r plant. Maent yn darparu ystod o gyfleoedd buddiol i'r plant ddechrau creu marciau ac i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd y plant yn gryf. Er enghraifft, caiff y plant gyfleoedd buddiol i ddysgu am siapiau drwy greu llun gan ddefnyddio siapiau ar y bwrdd golau a chreu siapiau wrth beintio ar yr astell. Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau sy'n datblygu medrau digidol y plant yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn caniatáu i blant ddatrys problemau a chymryd risgiau priodol. Er enghraifft, maent yn ychwanegu adnoddau fel morthwylion a llif wrth arbrofi a chreu yn yr ardal offer coed. Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau diddorol i'r plant ymgysylltu â byd natur a datblygu eu chwilfrydedd a'u hymdeimlad o ryfeddod am y byd naturiol. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau helfa drysor adar yn yr ysgol goedwig gan ddefnyddio siart i gofnodi'r adar maent wedi eu darganfod.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gynyddol o ddatblygiad plant. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau priodol am gynnydd plant yn eu dysgu a'u chwarae. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob amser yn cofnodi'r dysgu yn ddigon cyson i fwydo'r cynllunio ac i lywio'r camau nesaf er mwyn sicrhau cynnydd ym medrau'r plant.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn dda, wrth ddysgu am Santes Dwynwen, dathlu Dydd Gŵyl Dewi a chanu caneuon Cymreig. Yn ogystal, mae'r cyfleoedd buddiol i hyrwyddo dealltwriaeth plant o amrywiaeth a diwylliannau eraill , wrth ddysgu am ddathliadau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Gŵyl Diwali.

## Yr amgylchedd:  Rhagorol

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel, hynod o lân ac o ansawdd uchel. Mae'r mynedfa a giât allanol wedi'u cloi ac mae gweithdrefnau er mwyn eu rheoli yn effeithiol, gan sicrhau mynediad i ddefnyddwyr awdurdodedig neu ymwelwyr gyda chaniatâd yn unig. Mae ystod eang o asesiadau risg manwl yn cefnogi diogelwch o fewn yr amgylchedd. Mae ymarferwyr yn dilyn yr asesiadau risg ac yn cwblhau gwiriadau dyddiol i reoli risg ac unrhyw beryglon i ddiogelwch y plant. Mae rhain yn cynnwys monitro tymheredd yr ystafell a pharatoad yr ardaloedd. Mae ymarferwyr hefyd yn cynnwys plant mewn gweithdrefnau diogelwch dyddiol mewn ffordd ystyrlon. Mae plant yn falch o helpu

arweinwyr i osod rhubanau lliw ar lawr yn yr ardal ysgol goedwig er mwyn amlinellu ffiniau diogel. Mae arweinwyr yn cadw cofnodion o ymarferion tân sy'n cael eu cwblhau yn rheolaidd ac yn briodol. Maent hefyd yn sicrhau bod cyfarpar a thystysgrifau diogelwch yn gyfredol, gan adlewyrchu dull gweithredu systematig o reoli diogelwch.

Mae arweinwyr yn creu amgylchedd hynod groesawgar, sy'n ysbrydoli'r plant i fwynhau dysgu wrth chwarae. Mae ardaloedd cyfoethog sy'n meithrin annibyniaeth, a darpariaeth sy'n rhoi profiadau chwarae o ansawdd uchel. Mae arweinwyr yn trefnu dodrefn a matiau yn fedrus i ddiffinio ardaloedd penodol, gan ysgogi plant i'w harchwilio'n frwdfrydig. Er enghraifft, mae ardal ddarllen gyfforddus gyda llyfrau a chlustogau ac ardal chwarae rôl gartref yn cynnig cyfleoedd deniadol i hybu chwilfrydedd y plant. Mae'r ddarpariaeth yn hyblyg, ac yn cael ei haddasu i gyd-fynd ag anghenion a diddordebau'r plant. Mae enghreifftiau niferus o waith y plant a lluniau o'u teuluoedd yn addurno'r waliau, gan feithrin ymdeimlad cryf o berthyn a balchder. Mae'r plant yn ymwneud yn naturiol â'r arddangosfeydd hyn, er enghraifft wrth edrych ar luniau o'u teuluoedd wrth ymgolli mewn sgwrs dros ffôn ddychmygol.

Mae'r ardal awyr agored yn cael ei defnyddio'n gyson ac yn estyniad effeithiol iawn i'r amgylchedd dan do. Mae'r plant yn symud yn rhydd o un ardal i'r llall ac yn manteisio ar fod yn yr awyr agored. Mae arweinwyr yn darparu dillad addas ac esgidiau glaw er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i chwarae tu allan ym mhob tywydd. Mae'r ardal ysgol goedwig yn cynnig profiadau gwerthfawr i ddefnyddio adnoddau naturiol, gan ehangu a chyfoethogi profiadau'r plant ymhellach. Mae arweinwyr yn darparu adnoddau a chyfarpar chwarae amrywiol sy'n herio a sbarduno diddordebau'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn cydweithio i ddatrys problemau'n greadigol drwy ddefnyddio offer a phibellau i adeiladu llithren ddŵr. Mae mynediad rheolaidd i fuarth yr ysgol yn cynnig digonedd o le i blant redeg, beicio neu ddefnyddio offer dringo i ddatblygu medrau corfforol eang.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau ac offer i ysbrydoli'r plant a chyfoethogi eu chwarae yn sylweddol. Caiff annibyniaeth ei meithrin drwy sicrhau bod adnoddau o fewn gafael hawdd i'r plant, ynghyd â dodrefn o faint priodol. Mae'r defnydd o adnoddau go iawn yn hyrwyddo chwilfrydedd y plant i ymchwilio a dychmygu yn hynod effeithiol. Er enghraifft, mae sychwyr a sythwr gwallt yn y stondin golur, a thatws a moron yn yr ardal pwyso, i gefnogi profiadau dysgu dilys a phwrpasol. Mae ymarferwyr yn darparu adnoddau sy'n hyrwyddo dealltwriaeth y plant o ddiwylliannau amrywiol a hunaniaeth, gan gynnwys llyfrau, doliau ac eitemau â phatrymau a gweadau gwahanol, ac maent wedi eu hintegreiddio'n ystyrlon.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r arweinydd yn angerddol ac mae'n rhannu ei gweledigaeth ar gyfer cynnal darpariaeth o safon uchel gyda'r holl randdeiliaid. Mae'n cynnwys pob aelod o'r tîm ym

mywyd a gwaith y lleoliad er mwyn darparu'r cyfleoedd gorau i'r plant. Mae'r arweinydd yn ymwybodol o ddiddordebau a chryfderau pob ymarferydd ac yn dangos parch at bob un. Mae wedi llwyddo i greu tîm cryf gweithredol sy'n cydweithio'n arbennig o dda. Mae lles pob ymarferydd yn bwysig iddi ac mae'n rhoi amser iddynt ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau. Mae hyn yn codi hyder yr ymarferwyr ac yn datblygu eu dealltwriaeth o ddatblygiad plentyn yn effeithiol iawn.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol. Maent yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn ac wedi sefydlu systemau rhagorol ar gyfer sefydlu ymarferwyr newydd. Mae arweinwyr yn rheoli a goruchwylio bob ymarferydd yn rheolaidd ac yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cael hyfforddiant o ansawdd da iawn er mwyn diwallu eu hanghenion. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn wybodus iawn am eu dyletswyddau a'u rolau ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant pawb yn y lleoliad. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o bolisïau nad ydynt yn adlewyrchu'r gweithdrefnau cyfredol. Ni nodwyd unrhyw achos o dorri rheoliadau na safonau gofynnol cenedlaethol yn ystod yr arolygiad.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau effeithiol a chynaledig i werthuso gwaith y lleoliad. Maent yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol sy'n nodi cryfderau cyfredol y lleoliad yn gywir ynghyd ag ychydig iawn o feysydd sydd angen eu gwella. Mae arweinwyr yn ystyried barn ymarferwyr, rhieni a gofalwyr fel rhan o'r broses hunanwerthuso. Maent yn defnyddio deilliannau'r gweithdrefnau hyn i osod blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella sy'n cynnal eu gwaith yn hynod lwyddiannus.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau sydd ar gael. Er enghraifft, buddsoddwyd cyllid i godi cysgodfan yn yr ysgol goedwig i alluogi'r plant i ddefnyddio'r ardal allanol drwy gydol y flwyddyn. O ganlyniad, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau, a'u lles. Maent yn gwneud defnydd effeithiol iawn o gyllid i brynu adnoddau a theganau o safon uchel sy'n cynnal diddordeb y plant ac yn sbarduno eu dysgu'n llwyddiannus

Mae gan arweinwyr berthynas briodol â'r rhieni a gofalwyr. Er enghraifft, maent yn gwahodd rhieni i ymuno â sesiynau chwarae. Fodd bynnag, nid yw rhieni bob amser yn derbyn gwybodaeth gyfredol am gynnydd eu plentyn. Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol i gynorthwyo'r broses bontio ac yn cydweithio'n agos â swyddog datblygu'r awdurdod lleol.

Mae'r lleoliad yn elwa ar gysylltiadau agos â'r gymuned leol ac mae hyn yn helpu arweinwyr i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a difyr ar gyfer y plant. Er enghraifft, maent yn gwahodd amrywiaeth eang o ymwelwyr i'r lleoliad megis myfyrwyr o Nigeria a gwenynwr. Mae'r profiadau hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn hynod effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2026